Ardoll Adfer: mae £2.00 o bris gwerthu'r tocyn yn mynd i Ŵyl Gomedi Machynlleth i ddatblygu a gwella'r digwyddiad.

FAQs

Hi! It's my first time at the Festival. I've heard it's great.

It is! You're in for a real treat.

So what do I need to do? Do I need a ticket to enter the Festival?

No, because we're based in the town of Machynlleth the festival site is free to roam. You then purchase tickets to the individual events that you'd like to see. Whether that's just one show, or as much as you can cram in, you just pay for what you see. Capacities are limited and many shows do sell out in advance.

What about the Big Top at Y Plas?

This year there is a fence around the Big Top but (aside from two late night DJ events on Saturday and Sunday) entry is free and you are welcome to come in and enjoy our awesome programme of live music on us! We just don't allow drinks from outside to be brought in but we have an amazing range of ale, draught products, spirits, cocktails and non-alcoholic drinks at the bar.

Will I be able to buy tickets on the Festival weekend?

For shows that have tickets left you will! If there are specific shows you are heading to see, it is advisable to book in advance (via our website) as many sell out before the weekend.

Is it just stand-up comedy?

Nosiree. The Festival has always been about comedy in the widest possible sense, as we like to showcase what comedy can be, whether this is theatre, sketch, poetry, experimental stand-up, whatever. There is also a free programme of events on Y Plas lawn including live music, kids activities and cabaret as well as our street performers showcase on the Woodland Pathway on Saturday and Sunday afternoon.

What do I do when I get there? Will it be obvious?

One of the great things about Machynlleth is its size. The railway station brings you into the edge of town and from then on everything is within a few hundred meters. Once you've located the Clock Tower, use that as your compass and think of the town as a capital T.

Where can I park?

Maengwyn Street Car Park is the pay and display car park in the centre of town (follow directions to the Rugby Club).

If you are bringing a vehicle and want to park in the campsite field then spaces are available for £15 for the weekend. You can buy a ticket in advance via the campsite section of the website or pay in cash on arrival.

Are there Electric Vehicle charging points in Mach?

There are charging points for 8 vehicles on Maengwyn Street Car Park. As a small town in a rural location, there is limited capacity to offer electrical vehicle charging in town with such a large influx of people at the same time.

If you are traveling to the Festival in an electric or hybrid vehicle, it is important to make sure you have sufficient battery charge for your journey and advisable to recharge as fully as possible before getting to town where demand is likely to be much greater.

You can use a mapping service such as zap-map.com to find charging points on your journey.

I bought tickets on-line, where do I collect them?

All advance tickets are print at home. No physical tickets are posted out, just emailed to you direct.

If you are looking to buy tickets for shows on the weekend then head over to our Box Office at the Leisure Centre. There you'll be able to grab a programme, see what shows are still available and purchase new tickets! For full details on ticketing see page 20.

Where can I stay? I'm having trouble finding accommodation in town.

The town's hotels and B&Bs fill up rapidly, which is why we set-up camping facilities in the centre of town, and close to all the venues. Equipped with all the basic amenities it can be your home from home for the weekend, and if you're looking for more comfort you can rent a yurt or bell tent in advance and it'll be waiting for you when you arrive. Another option is to take the train towards the coast, with late trains to Aberystwyth and Borth you can be by the seaside, and ride in each day.

I have a question on access – who can I ask?

If the accessibility section of the website doesn't answer your question then please email us on **accessibility@littlewander.co.uk** and someone will get back to you.

On the festival weekend itself, there is also the Access Information Point at the Leisure Centre by Y Plas with a dedicated team on hand to help.

What about eating and drinking whilst I'm there?

Because we're based in a thriving market town there are plenty of charming cafes and warm pubs for you to refuel in, as well as our favourite food stalls based on the lawns of Y Plas and Owain Glyndŵr Centre. Our Festival bars run until late to keep you entertained.

Great! Can I pay by card?

Our Festival bars have card payment facilities , as do our stallholders but it is always useful to have some cash as back up. There aren't any banks in Mach but there are four ATMs. All the cashpoint info can be found in the venue section of the programme on page 32.

You can buy tickets from our Box Office on card and the majority of local businesses take card payment too.

I need the loo. Where should I head to?

We place banks of temporary toilets at Y Plas, the Owain Glyndŵr Centre and to the rear of the Tabernacle that supplement the public conveniences within the town. Check the map for your nearest port of call.

I have some lost property! Where would it be handed in?

Any lost property from individual venues is taken back, logged and stored at the Box Office.

This is all well and good but what if I have more questions on the weekend?

You're in luck! There are stewards at each venue that can help with specific queries relating to their particular space.

For more general enquiries, we have a team assembled at the Information Point next to the Box Office inside the Leisure Centre who can help with almost anything!

Okay! Sounds great! I'll see you on the weekend.

Cwestiynau Cyffredin

Heia! Dyma fy nhro cyntaf yn yr ŵyl. Rwy wedi clywed ei bod yn wych.

Ydy! Mae gwledd o'ch blaenau.

Felly beth sydd angen i mi wneud? Oes angen tocyn arna'i i ddod i'r ŵyl?

Gan ein bod yn nhref Machynlleth, mae safle'r ŵyl yn agored i grwydro. Byddwch wedyn yn prynu tocynnau i'r digwyddiadau unigol ry'ch chi'n dymuno eu gweld. P'un a yw'n un sioe, neu gynifer â phosib, byddwch ond yn talu am beth fyddwch yn ei weld. Mae lle'n brin ac mae llawer o sioeau yn gwerthu pop tocyn ymlaen llaw.

Beth am y Big Top yn Y Plas?

Eleni mae ffens o amgylch y Big Top ond (ar wahân i ddau ddigwyddiad DJ hwyr nos Sadwrn a nos Sul) mae mynediad am ddim ac mae croeso i chi ddod i fwynhau ein rhaglen anhygoel o gerddoriaeth fyw – ein trît ni! Dydyn ni ddim yn caniatáu diodydd o'r tu allan ond mae gennym amrywiaeth anhygoel o gwrw, cynhyrchion drafft, gwirodydd, coctels a diodydd di-alcohol wrth y bar.

Fydda i'n gallu prynu tocynnau ar benwythnos yr ŵyl?

Byddwch – ar gyfer sioeau sydd â thocynnau'n weddill! Os oes sioeau penodol yr hoffech eu gweld, cynghorir archebu ymlaen llaw (ar ein gwefan) gan fod llawer o sioeau'n gwerthu pob tocyn cyn hynny.

Ai comedi standyp yw'r cwbl?

Ddim o gwbl. Mae'r ŵyl wastad wedi croesawu comedi yn yr ystyr ehangaf posib, gan ein bod yn hoffi arddangos beth gall comedi fod, boed yn theatr, sgets, barddoniaeth, comedi llwyfan arbrofol, unrhyw beth. Mae hefyd rhaglen rad ac am ddim o ddigwyddiadau ar lawnt y Plas gan gynnwys cerddoriaeth fyw, gweithgareddau plant a chabaret yn ogystal â'n harddangosfa perfformwyr stryd ar Lwybr y Goedwig brynhawn Sadwrn a Sul.

Beth ddylwn i wneud ar ôl cyrraedd? A fydd hyn yn amlwg?

Un o'r pethau gwych am Fachynlleth yw ei maint. Mae'r orsaf drenau ar ffin y dref, ac mae popeth o fewn ambell gan medr o hynny ymlaen. Ar ôl i chi ddod o hyd i Dŵr y Cloc, defnyddiwch e fel cwmpawd, gan feddwl am y dref fel T fawr.

Ble fedra'i barcio?

Maes Parcio Stryd Maengwyn yw'r maes parcio talu ac arddangos yng nghanol y dref (dilynwch gyfarwyddiadau i'r Clwb Rygbi).

Os ydych chi'n dod â cherbyd ac eisiau parcio yn y maes gwersylla, mae llefydd ar gael am £15 am y penwythnos. Gallwch brynu tocyn ymlaen llaw trwy adran safleoedd gwersylla'r wefan neu dalu mewn arian parod wrth gyrraedd.

Oes mannau gwefru Cerbydau Trydan ym Mach?

Mae mannau gwefru ar gyfer 8 cerbyd ar Faes Parcio Stryd Maengwyn. Fel tref fechan mewn lleoliad gwledig, prin yw'r gallu i gynnig gwefru cerbydau trydanol yn y dref gyda chynifer o bobl yn dod ar yr un pryd.

Os ydych yn teithio i'r Ŵyl mewn cerbyd trydan neu hybrid, mae'n bwysig sicrhau bod gennych ddigon o wefr batri ar gyfer eich taith ac yn ddoeth i ailwefru mor llawn â phosib cyn cyrraedd y dref lle mae'r galw'n debygol o fod yn llawer mwy.

Gallwch ddefnyddio gwasanaeth mapio fel zapmap.com i ddod o hyd i fannau gwefru ar eich taith.

Prynais docynnau ar lein - ble ddylwn i eu casglu?

Dylid argraffu tocynnau ymlaen llaw gartref. Ni chaiff tocynnau eu postio, dim ond eu e-bostio atoch yn uniongyrchol.

Os ydych am brynu sioeau ar y penwythnos, ewch i'n swyddfa docynnau yn y Ganolfan Hamdden. Yno gallwch fynnu rhaglen, gweld pa sioeau sy'n dal i fod ar gael, a phrynu tocynnau newydd! Am fanylion llawn am docynnau gweler tudalen 21.

Ble fedra'i aros? Rwy'n cael trafferth yn dod o hyd i lety yn y dre.

Mae gwestai a lleoedd gwely a brecwast y dref yn llenwi'n gyflym, a dyna pam ry'n ni'n gosod cyfleusterau gwersylla yng nghanol y dref, ac yn agos at yr holl leoliadau. Gan gynnwys yr holl amwynderau, gall fod yn gartref i chi am y penwythnos, ac os hoffech chi fwy o gysur, gallwch rentu yurt neu babell gloch ymlaen llaw a bydd yn aros amdanoch pan fyddwch chi'n cyrraedd. Opsiwn arall yw cymryd y trên tuag at yr arfordir. Gyda threnau hwyr i Aberystwyth a Borth, gallwch fod ar lan y môr, a theithio bob dydd.

Mae gen i gwestiwn am fynediad - pwy alla i holi?

Os nad yw adran hygyrchedd y wefan yn ateb eich cwestiwn yna anfonwch e-bost atom ar **accessibility@littlewander.co.uk** a bydd rhywun yn dychwelyd atoch. Ar benwythnos yr ŵyl ei hun, mae hefyd *Pwynt Gwybodaeth Mynediad* ger y Swyddfa Docynnau gyda thîm ymroddedig wrth law i helpu.

Beth am fwyd a diod pan fyddaf yno?

Gan ein bod mewn tref farchnad ffyniannus, mae digon o gaffis hyfryd a thafarnau cynnes i'ch bwydo, yn ogystal â'n hoff stondinau bwyd ar lawntiau'r Plas a Chanolfan Owain Glyndŵr. Mae bariau'r ŵyl ar agor tan yn hwyr er mwyn eich diddanu.

Gwych! Alla'i dalu â cherdyn?

Mae gan ein bariau gŵyl gyfleusterau talu â cherdyn, a'n stondinwyr hefyd, ond mae bob amser yn ddefnyddiol cael rhywfaint o arian wrth gefn. Does dim banc ym Mach, ond mae pedwar twll yn y wal. Mae'r holl wybodaeth am dyllau yn y wal yn adran leoliadau'r rhaglen ar dudalen 32.

Gallwch brynu tocynnau o swyddfa'r docynnau â cherdyn, ac mae'r rhan fwyaf o fusnesau lleol yn derbyn taliadau cerdyn hefyd.

Mae angen y tŷ bach arna'i. Ble ddylwn i fynd?

Ry'n ni'n gosod toiledau dros dro yn y Plas, yng Nghanolfan Owain Glyndŵr, ac wrth gefn y Tabernacl, ar ben y toiledau cyhoeddus yn y dre. Defnyddiwch y map i ddod o hyd i'r rhai agosaf.

Rwy wedi colli eiddo! Ble fyddai'n cael ei drosglwyddo?

Mae unrhyw eiddo coll o leoliadau unigol yn cael ei gymryd yn ôl, ei gofnodi a'i storio yn y Swyddfa Docynnau.

Digon teg, ond beth os bydd mwy o gwestiynau gen i ar y penwythnos?

Newyddion da! Mae stiwardiaid ym mhob lleoliad a all helpu gydag ymholiadau penodol yn ymwneud â'u lleoliad penodol. Ar gyfer ymholiadau mwy cyffredinol, mae gennym dîm wedi ymgynnull yn y man gwybodaeth wrth ymyl y Swyddfa Docynnau yn y Ganolfan Hamdden a all helpu gyda bron unrhyw beth!

Iawn! Swynio'n wych! Wela'i chi ar y penwythnos.

Mach App

Our updated Festival app is available to download right now. Brought to you by the technical legends at Devfusion. It contains scheduling info, now and next, the ability to favourite shows and create your dream programme, ticket booking, maps and more.

It's an essential bit of festival software so be sure to download it and enjoy planning your weekend from the palm of your hand...

Mae ein ap wedi'i ddiweddaru i'r ŵyl ar gael i'w lawrlwytho. Wedi'i gyflwyno gan arwyr technoleg Devfusion, mae'n cynnwys amserlenni, nawr a nesaf, y gallu i ddewis hoff sioeau, ac i greu eich rhaglen berffaith, archebu tocynnau, mapiau a mwy.

Mae'n ddarn hanfodol o feddalwedd i'r ŵyl felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ei lawrlwytho i fwynhau cynllunio'ch penwythnos o gledr eich llaw...



what3words

What3words

As previous years, we've supplied **What3Words** references as an added navigation tool this year– most commonly seen in the venues section.

If you don't know about What3Words then here's a bit more info...

Street addresses aren't accurate enough to specify precise locations, such as building entrances.

What3words is an app that essentially points to a very specific location. Its developers divided the world into 57 trillion squares, each measuring 3m by 3m and each having a unique, randomly assigned address made up of three words from the dictionary.

From a festival point of view, it's very handy to be able to direct users so precisely, not to mention an accurate way for attendees to share their exact location with friends.

You can download and use the **What3Words** app for free from the App Store and Google Play.

Fel llynedd, rydym wedi ychwanegu cyfeiriadau **What3Words** fel offeryn llywio ychwanegol eleni – a welir amlaf yn yr adran lleoliadau.

Os nad ydych chi'n gwybod am What3Words yna dyma ychydig mwy o wybodaeth...

Nid yw cyfeiriadau stryd yn ddigon cywir i nodi union leoliadau, fel mynedfeydd adeiladau.

Mae **What3words** yn ap sydd yn ei hanfod yn pwyntio at leoliad penodol iawn. Rhannodd ei ddatblygwyr y byd yn 57 triliwn o sgwariau, pob un yn mesur 3m wrth 3m a phob un â chyfeiriad unigryw, wedi'i greu ar hap gyda thri gair o'r geiriadur.

O safbwynt gŵyl, mae'n ddefnyddiol iawn gallu cyfeirio defnyddwyr mor fanwl gywir, heb sôn am ffordd i fynychwyr rannu eu hunion leoliad gyda ffrindiau.

Gallwch lawrlwytho a defnyddio ap **What3Words** am ddim o'r App Store a Google Play.



Festival Super Camping

Looking for somewhere to stay in the centre of Machynlleth? We're back with our Festival campsite in the middle of town!

The usual main camping field (behind the Co-Op Car Park) is having a year off to recover having been reseeded last year. Thankfully the field over the lane (where Live-in Vehicles caravans, campervans and motorhomes were in 2024) has loads of room to accommodate everyone safely and with plenty of room to spare.

This includes people with tents, glamping bookings, Live in Vehicles or any other campsite bookings that include a vehicle.

As a result, ALL TRAFFIC will access the campsite via Llynlloed Lane - a right turn off Maengwyn Street just before the Co-Op as you head away from the clocktower.

There will be signage up during the Festival but here is some more info to familiarise yourself with things in advance...

Campsite entrance (all vehicles)

What3Words : **wolves.shutting.hiring**

Pedestrian / non vehicular traffic

There is a separate pedestrian access point to the campsite from the Owain Glyndŵr pathway to avoid using the main gate on Llynloed Lane.

Festival Campsite

Your campsite wristband allows you access to pitch your tent within the designated camping areas plus the following facilities:

- 24 hour security / reception
- Private hot showers*
- Executive flushing toilet units*
- Additional standard and accessible portable toilet units
- Drinking water
- Complimentary phone/tablet charging facilities
- Campsite coffee and cake stall (charges apply)
- On-site parking adjacent to the camping area (charges apply – see car parking section below)
- Waste/recycling points
- Central location

*please note these are raised trailers up a small set of steps so may not be suitable for some customers with access needs

All this for just £50 per adult for the whole weekend. There is no restriction on tent size - you only pay per person.

Under 18s are welcome at a discounted price of £20, but must be camping with a responsible adult. Under 5s are free.

Campsite is open from 10am on Friday 2 May 2025

If you are arriving in a vehicle then you will also need to purchase one of the following, dependent on the type of vehicle it is:

Car Parking

To try and encourage car sharing and reduce the numbers of vehicles at the Festival, there is a car parking charge of £15 per vehicle. If you are bringing a car and require parking then the driver will require one of these passes. They need to be purchased in advance in the same way as camping tickets.

Campervans, Caravans and Trailer Tents

If you've got a Live-in vehicle you want to bring, that costs just £60 per vehicle. Please remember that the pass is for the vehicle only. You will also need to purchase camping wristbands for every person staying in the vehicle.

Cars towing caravans / trailer tents do not need an additional car parking pass.

Fred's Yurts

Do you crave some luxury camping? Fred's Yurts are the answer. With their range of spacious bell tents and cosy yurts, enjoy arriving to your home from home in the heart of the festival. Tents kitted out with winter bedding, blankets, cushions and roaring wood burners will provide a warm and snug space to retreat to at the end of your day.

Canvas Bell tents
2 sizes – sleep 1-6 From £265 for the weekend

Luxury Yurts
3 sizes – Sleep 2-6
from £550 for the weekend and can come with wood burners (recommended)

Add furnishings, super comfy beds and bedding or bring your own. Fred's team will be there to welcome you, show you to your tent and be on hand in case of any problems throughout the weekend.

Teas and barista coffees served daily in the campsite as well as hot showers, flushing toilets, 24hr security, complimentary parking (close to the tents) and recycling points, all just a stone's throw from the centre of town and all of the venues.

Got to **www.yurtevents.co.uk** for full options and prices and to book your accommodation.

Campsite Accessibility

The Festival campsite is a grass site with uneven terrain and limited accessibility. If you have specific access needs and are thinking about staying on the campsite, please get in touch via our accessibility@littlewander.co.uk email address ahead of booking so that we can offer help and advice and advance.

Important note:

As with all outdoor facilities, our campsite provision can be affected by prolonged adverse weather conditions in the lead up to the Festival weekend. In such circumstances, MCF will make every effort to provide an alternative campsite as close as possible to the original site. In the event of this being located further out, complimentary transport will be provided to and from town. In the event of extreme weather conditions where no alternative sites are available, all camping tickets (and associated show tickets on request) will be refunded in full.

Gwersylla Gwych yr Ŵyl

Chwilio am rywle i aros yng nghanol Machynlleth? Rydyn ni'n ôl gyda gwersyll yr ŵyl yng nghanol y dref!

Mae'r prif faes gwersylla arferol (y tu ôl i faes parcio'r Co-Op) yn cael seibiant am flwyddyn i wella ar ôl cael ei ail-hadu y llynedd. Diolch byth, mae gan y cae dros y lôn (lle'r oedd cerbydau llety, carafanau, faniau a chartrefi modur yn 2024) lwyth o le i bawb aros yn ddiogel a digon o le i sbario.

Mae hyn yn cynnwys pobl â phebyll, archebion glampio, cerbydau llety neu unrhyw archebion gwersylla eraill sy'n cynnwys cerbyd.

O ganlyniad, bydd POB TRAFFIG yn mynd i'r maes gwersylla drwy Lôn Llynlloed – troad i'r dde oddi ar Stryd Maengwyn ychydig cyn y Co-Op wrth i chi fynd oddi wrth y tŵr cloc.

Bydd arwyddion yn ystod yr ŵyl, ond dyma ragor o wybodaeth i ymgyfarwyddo â phethau ymlaen llaw ...

Mynedfa'r gwersyll (pob cerbyd)

What3Words : **wolves.shutting.hiring**

Cerddwyr / dim traffig cerbydol

Mae yna bwynt mynediad ar wahân i gerddwyr i'r maes gwersylla o lwybr Owain Glyndŵr er mwyn osgoi defnyddio'r brif giât ar Lôn Llynloed.

Maes Gwersylla'r Ŵyl

Mae band llawes eich gwersyll yn caniatáu mynediad i chi i osod eich pabell yn yr ardaloedd gwersylla dynodedig ynghyd â'r cyfleusterau canlynol:

- Derbynfa / diogelwch 24 awr
- Cawodydd twym preifat*
- Unedau toiled crand sy'n fflysio*
- Unedau toiled cludadwy safonol a hygyrch ychwanegol
- Dŵr yfed
- Cyfleusterau gwefru ffôn/tabled am ddim
- Stondin coffi a chacennau gwersylla (codir tâl)
- Parcio ar y safle ger yr ardal wersylla (ffioedd – gweler yr adran parcio isod)
- Mannau gwastraff/ailgylchu
- Lleoliad canolog

*sylwch - mae'r rhain yn ôl-gerbydau wedi'u codi i fyny set fach o risiau felly efallai na fyddant yn addas i rai cwsmeriaid ag anghenion mynediad.

Hyn i gyd am ddim ond £50 y person am y penwythnos cyfan. Dewch â phabell o unrhyw faint – ry'ch chi ond yn talu am bob person.

Mae croeso i blant a phobl ifanc dan 18 hefyd, ond rhaid iddynt wersylla gydag oedolyn cyfrifol am bris llai o £20. Am ddim i blant dan 5.

Mae'r gwersyll ar agor o 10am fore Gwener 2 Mai 2025.

Os ydych chi'n cyrraedd mewn cerbyd yna bydd angen i chi hefyd brynu un o'r canlynol, yn dibynnu ar y math o gerbyd ydyw:

Parcio Ceir

I geisio annog rhannu ceir a lleihau nifer y cerbydau yn yr ŵyl, ry'n ni'n codi £15 y cerbyd am barcio eleni. Os ydych chi'n dod â char ac angen lle parcio, yna bydd angen un o'r tocynnau hyn ar y gyrrwr. Rhaid prynu rhain ymlaen llaw yn yr un ffordd â thocynnau gwersylla.

Cerbydau Gwersylla, Carafannau a Phebyll Ôl-gerbyd

Os hoffech ddod â cherbyd llety, mae'n costio dim ond £60 y cerbyd. Cofiwch bod y pas ar gyfer y cerbyd yn unig. Bydd hefyd rhaid i chi brynu band llawes gwersylla i bob person sy'n aros yn y cerbyd.

Nid oes rhaid i geir sy'n cludo carafan / pabell ôl-gerbyd dalu am bas parcio ychwanegol.

Fred's Yurts

Dyheu am wersylla moethus? Fred's Yurts yw'r ateb. Gyda phebyll cloch ac yurts clyd amrywiol, mwynhewch eich cartref clyd yng nghanol yr ŵyl. Bydd pebyll sy'n cynnwys dillad gwely gaeaf, blancedi, clustogau a llosgwyr pren rhuadwy yn rhoi lle cynnes a chlyd i gilio'n ôl iddo ar ddiwedd eich diwrnod.

Pebyll cloch cynfas
2 faint – i 1-6 yn cysgu. O £265 am y penwythnos

Yurts moethus
3 maint – 2-6 yn cysgu o £550 am y penwythnos a gall gynnwys llosgydd pren (argymhellir) Ychwanegwch gelfi, gwelyau hynod gyfforddus a dillad gwelyd, neu dewch â rhai'ch hunain. Bydd tîm Fred yno i'ch croesawu, i'ch tywys i'ch pabell, ac i fod wrth law os bydd problem yn ystod y penwytnos.

Bydd te a choffi barista ar gael bob dydd yn y gwersyll, yn ogystal â chawodydd twym, toiledau sy'n fflysio, diogelwch 24 awr, parcio am ddim (yn agos i'r pebyll) a mannau ailgylchu, oll o fewn tafliad carreg i ganol y dref a'r holl sioeau.

Ewch i **www.yurtevents.co.uk** am opsiynau llawn a phrisiau ac i archebu eich llety.

Hygyrchedd Maes Gwersylla

Mae maes gwersylla'r ŵyl yn safle glaswelltog gyda thir anwastad a hygyrchedd cyfyngedig. Os oes gennych anghenion mynediad penodol ac yn ystyried aros ar y maes gwersylla, ebostiwch ni ar accessbility@littlewander.co.uk cyn archebu fel y gallwn gynnig cymorth a chyngor ymlaen llaw.

Nodyn pwysig:

Yn yr un modd â phob cyfleuster awyr agored, gall tywydd garw yn ystod y cyfnod cyn penwythnos yr ŵyl effeithio ar ein gwersyll. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd Gŵyl Gomedi Machynlleth yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwersyll amgen mor agos â phosib i'r safle gwreiddiol. Os bydd y lleoliad yn bellah, bydd cludiant am ddim i'r dref ac yn ôl. Os bydd tywydd eithafol lle nad oes safleoedd amgen ar gael, bydd pob tocyn gwersylla (a thocynnau sioeau cysylltiedig ar gais) yn cael eu had-dalu'n llawn.

Venues / Lleoliadau

The Mach Arena

What3Words: **remarried.flops.below**

Located in the Leisure Centre next to Y Plas, this is our flagship venue and our largest capacity.

There is a slope down to the automatic entrance doors and then level access from there and down the corridor to the Arena.

There are two stepped entrance points to the seats plus level access at the back right of the venue for wheelchair users and anyone with mobility issues. Venue staff will be on hand to direct you as required at the Arena doors.

Unfortunately, there are no in house bar facilities but you can take drinks from the Beech Bar on the lawn over to the Arena.

Yn y Ganolfan Hamdden drws nesaf i'r Plas, dyma'n lleoliad blaenllaw a'n capasiti mwyaf.

Mae llethr i lawr at y drysau mynediad awtomatig ac yna mynediad gwastad oddi yno ac i lawr y coridor i'r Arena.

Mae dwy fynedfa risiog i'r seddi ynghyd â mynediad gwastad yng nghefn y lleoliad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac unrhyw un sydd â phroblemau symudedd. Bydd staff y lleoliad wrth law i'ch cyfeirio yn ôl yr angen at ddrysau'r Arena.

Yn anffodus, nid oes unrhyw gyfleusterau bar mewnol ond gallwch fynd â diodydd o'r Beech Bar ar y lawnt draw i'r Arena.

Festival Box Office

Swyddfa Docynnau'r Ŵyl

What3Words: **simulations.explorer.loser**

Our Festival Box Office once again takes up residency once in the Leisure Centre Sports Hall, keeping the Box Office at the heart of the festival action!

To enter, walk straight past the main doors of the Mach Arena (in the direction of the woodland path) and the entrance is approx. 20 meters further along the exterior of the building. It is level access following paving slabs around the perimeter.

Here you can buy tickets, check show availability, grab a copy of the programme and speak to friendly faces there will be able to direct, advise and inform you about all aspects of the Festival.

Mae Swyddfa Docynnau'r Ŵyl unwaith eto yn Neuadd Chwaraeon y Ganolfan Hamdden, gan gadw'r swyddfa docynnau wrth galon prysurdeb yr ŵyl!

Mae'r fynedfa heibio prif ddrysau Arena Mach (i gyfeiriad y llwybr coetir) ac mae'r fynedfa tua 20 medr ymhellach tu allan i'r adeilad. Mae'n fynediad gwastad gan ddilyn slabiau palmant o amgylch y perimedr.

Yma gallwch brynu tocynnau, gwirio argaeledd sioeau, cael copi o'r rhaglen a siarad â wynebau cyfeillgar a fydd yn gallu eich cyfarwyddo, eich cynghori a'ch hysbysu am bob agwedd o'r ŵyl.

Accessibility Information Point/ Man Gwybodaeth Hygyrchedd

What3Words: **pint.small.tadpoles**

Our Accessibility Information Point is also located within the Leisure Centre but this year is in its own separate space to the left of the main entrance to give more direct access from the front of the building as well as quieter, calmer space to discuss any access queries that Festival attendees may have .

For more details on the Access at this years Festival, please go to page 14.

Mae ein Pwynt Gwybodaeth Hygyrchedd hefyd yn y Ganolfan Hamdden ond eleni mae yn ei lle ar wahân ei hun i'r chwith o'r brif fynedfa i roi mynediad mwy uniongyrchol o flaen yr adeilad yn ogystal â man tawelach i drafod unrhyw ymholiadau mynediad a allai fod gan fynychwyr yr ŵyl.

Am ragor o fanylion mynediad yng ngŵyl eleni, ewch i dudalen 16.

Y Plas venues / Lleoliadau'r Plas

What3Words: **tenure.performs.charts**

Y Plas Main Hall

What3Words: **inserted.activates.poppy**

This 250 seater is one of the bigger rooms at the Festival and hosts (amongst other things) the Friday & Saturday night Plas showcases. The way in is via the steps / level access ramp to the right of the building as you are facing the main entrance.

Gyda 250 o seddi, dyma un o ystafelloedd mwyaf yr ŵyl sy'n cynnal (ymysg pethau eraill) arddangosfeydd y Plas ar nos Wener a nos Sadwrn. Mae'r ffordd i mewn trwy'r grisiau / ramp mynediad gwastad i'r dde o'r adeilad wrth i chi wynebu'r brif fynedfa.

Vane Tempest

What3Words: **barmaid.hound.compact**

A compact 50 seat venue at the back of Y Plas. Enter through the main entrance at the front of the building and head down the corridor to the left of the reception desk. This room has a small set of steps (3 or 4) leading down to floor level.

There is alternative level access from the back of the building but is not suitable for wheelchair users due to the width of the door. To use this route in, please speak to a member of venue staff on arrival.

Lleoliad bach 50 sedd yng nghefn y Plas. Ewch i mewn drwy'r brif fynedfa o flaen yr adeilad ac ewch i lawr y coridor i'r chwith o ddesg y dderbynfa. Mae gan yr ystafell hon set fach o risiau (3 neu 4) yn arwain i lawr lefel y llawr.

Mae mynediad gwastad arall o gefn yr adeilad ond nid yw'n addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn oherwydd lled y drws. I ddefnyddio'r llwybr hwn i mewn, siaradwch ag aelod o staff y lleoliad wrth gyrraedd.

Y Plas Lawn / Lawnt Y Plas

What3Words: **classic.sharpened.communal**

As ever, Y Plas lawn hosts the Big Top, home of our Live Music stage, the Festival Beech Bar and outdoor kids activities.

It is level access straight from the main footpath and straight on to grass. There is no flooring within the big top and therefore some areas of heavy footfall can become muddy in wet weather.

Fel arfer, mae lawnt Y Plas yn gartref i'r Big Top, cartref ein llwyfan cerddoriaeth fyw, Beech Bar yr ŵyl a gweithgareddau awyr agored i blant.

Mae'n fynediad gwastad yn syth o'r prif lwybr troed ac yn syth ymlaen i laswellt. Nid oes unrhyw loriau o fewn y Big Top ac felly gall rhai mannau lle mae nifer fawr o bobl fynd yn fwdlyd mewn tywydd gwlyb.

Barti Rum Live Music Stage

As well as hosting our main Festival bar, the Big Top is also home to our free programme of live music across the weekend. With performances all weekend scheduled in between stand-up shows, come grab a drink and check out some of our favourite bands in action - see page 136 for more details.

Yn ogystal â prif far yr ŵyl, mae'r Big Top hefyd yn gartref i'n rhaglen rhad ac am ddim o gerddoriaeth fyw dros y penwythnos. Gyda pherfformiadau drwy'r penwythnos wedi'u trefnu rhwng sioeau standyp, dewch am ddiod ac i weld rhai o'n hoff fandiau ar waith - gweler tudalen 136 am fwy o fanylion.

Late Night DJ Sets

This year the Big Top will be hosting late night DJ sets on Saturday and Sunday with our inaugural Silent Disco on Saturday night from 10pm and the legendary Comedian's DJ Battles on Sunday from 9.30pm. These are ticketed events so availability will be limited to ticketholders only.

Eleni bydd y Big Top yn cynnal setiau DJ hwyr nos Sadwrn a nos Sul gyda'n Disgo Tawel cyntaf nos Sadwrn o 10pm a's Comedian's DJ Battles chwedlonol nos Sul o 9.30pm. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau â thocynnau felly byddant ar gael i ddeiliaid tocynnau yn unig.

The Beech Bar

Facing you as you enter and running the entire length of the tent, our bar is well stocked with our incredible cask festiv-ale, real cider and all the usual pub products you'd expect to find PLUS our dedicated cocktail bar.

Yn eich wynebu wrth i chi ddod i mewn, ar hyd y babell gyfan, mae ein bar yn llawn cwrw casgen anhygoel, seidr go iawn a'r holl gynnyrch tafarn arferol y byddech chi'n disgwyl ei weld YNGHYD â'n bar coctels pwrpasol.

Free Kids Activities / Gweithgareddau Plant Am Ddim

Y Plas lawn also features some free circus skills and hula hoop workshops for kids on Saturday & Sunday plus all the family and come and bust a move with our Sunday morning disco in the tent! See page 144 for more info on when these happen!

Mae lawnt y Plas hefyd yn cynnwys sgiliau syrcas rhad ac am ddim a gweithdai cylchyn hwla i blant ddydd Sadwrn a dydd Sul ynghyd â'r teulu cyfan, a dewch i ddawnsio gyda'n disgo bore Sul yn y babell! Gweler tudalen 144 am ragor o wybodaeth ynghylch pryd y bydd y rhain yn digwydd!

Food court / Cwrt bwyd

What3Words: **awake.scratches.costumed**

Familiar faces aplenty as our favourite street vendors return to keep you fuelled in between shows with a mouth-watering selection . See the food section on page 48 for full details.

Mae digonedd o wynebau cyfarwydd wrth i'n hoff werthwyr stryd ddychwelyd i'ch llenwi rhwng sioeau gyda detholiad blasus. Gweler yr adran fwyd ar dudalen 48 am fanylion llawn.

The Woodland Pathway/ Y Llwybr Coetir

What3Words: **pint.small.tadpoles**

This is the flat, tarmac pathway linking the Owain Glyndŵr Centre and Y Plas. Keep an eye out for some al fresco stand-up shows and pop-up performances taking place across the weekend. See page 150 for more details...

Dyma'r llwybr gwastad, tarmac sy'n cysylltu Canolfan Owain Glyndŵr a'r Plas. Cadwch lygad am sioeau standyp al-fresco a pherfformiadau unigryw sy'n cael eu cynnal dros y penwythnos. Gweler tudalen 150 am fwy o fanylion...

The Owain Glyndŵr Centre / Lleoliadau Canolfan Owain Glyndŵr

What3Words: **motor.summit.jumps**

The spiritual heart of the Festival since we began in 2010! The ancient Welsh Parliament building provided the inspiration for holding the Festival in beautiful Machynlleth and is home to three wonderful spaces.

All venues are accessed coming in through the main archway into the Owain Glyndŵr courtyard. It is level access from the pavement leading to a mixture of paving stones, cobble and gravel approaching all the venues.

More specific access details can be found under each venue info below...

Calon ysbrydol yr ŵyl ers i ni ddechrau yn 2010! Yr adeilad senedd Cymreig hynafol oedd yr ysbrydoliaeth i gynnal yr ŵyl ym Machynlleth brydferth ac mae'n gartref i dri gofod bendigedig.

Ceir mynediad i bob lleoliad gan ddod i mewn drwy'r brif fynedfa i gwrt Owain Glyndŵr. Mae mynediad gwastad o'r palmant sy'n arwain at gymysgedd o gerrig palmant, cobl a graean yn agosáu at yr holl leoliadau.

Gellir dod o hyd i fanylion mynediad mwy penodol o dan bob gwybodaeth lleoliad isod...

Billiard Room

What3Words: **similar.satin.grounding**

The largest of the venues at Owain Glyndŵr, this 100 seat room has a very intimate feel with a low ceiling and basement vibe!

Heading straight on as you enter through the main archway from the street, the entrance door is the last on the right. Access is down three small steps to the venue floor. If level access is required then there is an alternative route in. Please speak to a member of our venue team on arrival and they will be able to help.

Y mwyaf o'r lleoliadau yn Owain Glyndŵr, mae gan yr ystafell 100 sedd hon naws agos-atoch iawn gyda nenfwd isel ac islawr!

Gan fynd yn syth ymlaen wrth i chi fynd i mewn trwy'r brif fynedfa fwaog o'r stryd, y drws mynediad yw'r olaf ar y dde. Mae mynediad i lawr tri gris bach i lawr y lleoliad. Os oes angen mynediad gwastad yna mae llwybr arall i mewn. Siaradwch ag aelod o'n tîm lleoliad wrth gyrraedd a byddan nhw'n gallu helpu

The Owain Glyndŵr Centre / Lleoliadau Canolfan Owain Glyndŵr

Powys Room / Ystafell Powys

What3Words: **trump.realtions.revamping**

One of the original Festival venues, this 60 seat room is on the first floor of the main building.

It can only be accessed via a flight of stone stairs and is therefore unsuitable for anyone with mobility issues.

Yn un o leoliadau gwreiddiol yr ŵyl, mae'r ystafell 60 sedd hon ar lawr cyntaf y prif adeilad.

Dim ond gyda grisiau carreg y gellir cael mynediad iddo ac felly mae'n anaddas i unrhyw un sydd â phroblemau symudedd.

Senedd-Dy

What3Words: **partly.alerting.widgets**

This 40 seat venue is within the wooden panelled ancient Welsh Parliament building.

It is accessed via an arched door round to the left as soon as you come into the courtyard from the main street. There are two small steps down but a portable ramp is available on request. Please speak to a member of venue staff on arrival for details.

TMae'r lleoliad 40 sedd hwn o fewn adeilad hynafol Senedd Cymru â phaneli pren.

Ceir mynediad iddo trwy ddrws bwa rownd i'r chwith cyn gynted ag y byddwch yn dod i mewn i'r cwrt o'r brif stryd. Mae dau ris bach i lawr ond mae ramp cludadwy ar gael ar gais. Siaradwch ag aelod o staff y lleoliad wrth gyrraedd am fanylion.

Keep It Light Media Courtyard @ Owain Glyndŵr

What3Words: **suddenly.removes.ogre**

In addition to three magnificent venues, the lawn outside is an amazing, relaxed social space – home to our other Festival bar, delicious street food stalls, box benches, the usual laid back vibes AND our very own Festival radio station!

The lawned area is accessed via a small set of stone steps or a small ramp at the back (the opposite end to the main entrance).

Yn ogystal â thri lleoliad godidog, mae'r lawnt y tu allan yn ofod cymdeithasol anhygoel, hamddenol – yn gartref i'n bar gŵyl arall, stondinau bwyd stryd blasus, meinciau bocs, y naws hamddenol arferol AC ein gorsaf radio ein hunain!

Ceir mynediad i'r ardal lawnt trwy set fechan o risiau cerrig neu ramp bach yn y cefn (y pen arall i'r brif fynedfa).

Owain Glyndŵr Bar / Bar Owain Glyndŵr

A vibrant little watering-hole to meet up with friends, kick back with a drink or cosy up with a blanket next to one of our fire pits in the evenings

Bar bach bywiog i gwrdd â ffrindiau, ymlacio gyda diod neu gynhesu gyda blanced wrth ymyl un o'n pyllau tân gyda'r nos.

Keep It Light Media Courtyard @ Owain Glyndŵr

Food Stalls / Stondinau Bwyd

Worth a visit just for this tasty trio alone, come and check out authentic Caribbean cuisine from Cegin Manuka, tapas & paella with Ele's Little Kitchen plus veggie and vegan delights at the Fritter Shack. Full details can be found at page 50.

Mae'n werth ymweld â'r triawd blasus hwn – dewch i weld bwyd stryd gan Manuka, tapas a paella gyda Ele's Little Kitchen a danteithion llysieuol a fegan yn y Fritter Shack. Manylion llawn ar dudalen 50.

Little Wander Radio

Little Wander Radio is our official live radio station with a schedule packed with guest DJs from our stand-up schedule all weekend.

Little Wander Radio is available on FM & Online but you'll also be able to hear the station output on the lawn at Owain Glyndŵr in between shows.

Thanks to Keep It Light Media for their support in making this possible.

Radio Little Wander yw ein gorsaf radio fyw swyddogol gydag amserlen yn llawn DJs gwadd o'n hamserlen standyp drwy'r penwythnos.

Mae Radio Little Wander ar gael ar FM ac arlein ond byddwch hefyd yn gallu clywed yr orsaf ar lawnt Owain Glyndŵr rhwng sioeau.

Diolch i Keep It Light Media am eu cefnogaeth i wneud hyn yn bosib.

Ysgol Bro Hyddgen

This is the secondary school in Machynlleth and home of 5 different Festival venues – three in the main school and two others in the separate Sixth Form building above it (the Canolfan Hyddgen).

Dyma'r ysgol uwchradd ym Machynlleth ac mae'n gartref i 5 lleoliad gwahanol yr ŵyl – tri yn y brif ysgol a dau arall yn adeilad y Chweched Dosbarth ar wahân (Canolfan Hyddgen).

Main Hall / Prif Neuadd

What3Words: **housework.insiders.bulletins**

The main school hall provides a wonderful 180 capacity venue. You can head to it from a couple of directions, both of which have level access via ramp to paved walkways.

If you are at Y Plas then come out of the main vehicle entrance and cross the road by the school bus layby, through the gate and following the path around the right of the building to the lawn in the centre of the school.

Alternatively if you are walking from the Clock Tower towards Y Plas, turn right just before the car wash garage to access via Bank Lane.

Mae prif neuadd yr ysgol yn lleoliad gwych â lle i 180 o bobl. Gallwch fynd ato o ddau gyfeiriad, ac mae gan y ddau fynediad gwastad trwy ramp i lwybrau palmantog.

Os ydych yn Y Plas yna dewch allan o'r brif fynedfa cerbydau a chroeswch y ffordd ger y gilfan bws ysgol, drwy'r gât a dilynwch y llwybr o amgylch ochr dde'r adeilad i'r lawnt yng nghanol yr ysgol.

Fel arall, os ydych yn cerdded o Dŵr y Cloc tuag at Y Plas, trowch i'r dde ychydig cyn y garej golchi ceir i gael mynediad drwy Bank Lane

Ysgol Bro Hyddgen

The Gym

What3Words:
rejoiced.outwards.arose

This 120 seater is best accessed by crossing the road at Y Plas main entrance, through the gate and in through the left hand side of the main school building.

Mae'n well cyrraedd yr ystafell 120 sedd trwy groesi'r ffordd ym mhrif fynedfa'r Plas, trwy'r giât ac i mewn trwy ochr chwith prif adeilad yr ysgol.

Room 13

What3Words:
bitter.tender.liner

Room 13 is a small 30 seater classroom at the side of the school facing the main road across from Y Plas. Enter through the gate by the bus layby and in through the right hand side of the main school building.

Mae Ystafell 13 yn ystafell ddosbarth fechan 30 sedd ar ochr yr ysgol sy'n wynebu'r ffordd fawr ar draws y Plas. Ewch i mewn drwy'r gât ger y gilfan fysiau ac i mewn drwy ochr dde prif adeilad yr ysgol.

The Sixth Form

What3Words:
massive.fish.cuddling

Housed within the Canolfan Hyddgen (built in 2009 overlooking Ysgol Bro Hyddgen), the Sixth Form is a 40 capacity venue on the ground floor.

It's separate from the secondary school building. If you are walking from the Clock Tower towards Y Plas, turn right just before the car wash garage to access via Bank Lane.

It's level access along the pavement, up a sloped road to the main entrance.

O fewn Canolfan Hyddgen (adeiladwyd yn 2009 yn agos at Ysgol Bro Hyddgen), mae'r Chweched Dosbarth yn lleoliad 40 sedd ar y llawr gwaelod.

Mae ar wahân i adeilad yr ysgol uwchradd. Os ydych yn cerdded o Dŵr y Cloc tuag at Y Plas, trowch i'r dde ychydig cyn y garej golchi ceir i gael mynediad drwy Bank Lane.

Mae'n fynediad gwastad ar hyd y palmant, i fyny ffordd ar lethr i'r brif fynedfa.

The Upper Sixth

What3Words:
massive.fish.cuddling

Also within the Canolfan Hyddgen, the Upper Sixth is a 30 capacity venue upstairs. There is a lift to the first floor.

Hefyd yng Nghanolfan Hyddgen, mae'r Chweched Uchaf yn lleoliad 30 sedd lan llofft. Mae lifft i'r llawr cyntaf.building.

The Old Pizzeria

What3Words:
darts.gobbling.vineyard

Located right in the heart of town across from the clock tower, the Old Pizzeria can be found at the back of the Wynnstay Hotel.

You can enter through the main bar of the hotel with a small step into the venue or there is level access via the side passage running down to the left of the hotel as you look from the front.

Wedi'i leoli reit yng nghanol y dref ar draws o dwr y cloc, mae'r Old Pizzeria i'w weld yng nghefn Gwesty'r Wynnstay.

Gallwch fynd i mewn trwy brif far y gwesty gyda gris bach i mewn i'r lleoliad neu mae mynediad gwastad ar hyd y llwybr ochr sy'n rhedeg i lawr i'r chwith o'r gwesty wrth i chi edrych o'r blaen.

The Swallow Theatre

What3Words:
passports.birds.measuring

The Swallow Theatre is an intimate 35 capacity venue within an old stone garage in the parking area at the back of the Wynnstay Hotel (accessed through the passageway to the left of the front door as you look at the hotel).

There is level access through the passageway and across a small gravel car park.

Mae'r Swallow Theatre yn lleoliad bach 35 sedd mewn hen garej carreg tu ôl i Westy Wynnstay (mynediad trwy'r llwybr tramwy i'r chwith o'r drws ffrynt wrth i chi edrych ar y gwesty).

Mae mynediad gwastad trwy'r dramwyfa ac ar hyd y maes parcio graean bach

Y Tabernacl

What3Words: **eggplants.disco.stitch**

This stunning 300 seat converted tabernacle forms part of the Musem of Modern Art on Pen'Rallt Street. Head northwards from the town clock as far as the war memorial and the building is on the right hand side.

There is level access from the street into the building and then a small set of steps or lift access to the auditorium (stair access only for the balcony).

Mae'r tabernacl syfrdanol hwn sydd â 300 o seddi wedi'i drawsnewid yn rhan o'r Amgueddfa Celf Fodern ar Stryd Pen'Rallt. Ewch tua'r gogledd o gloc y dref cyn belled â'r gofeb rhyfel ac mae'r adeilad ar yr ochr dde.

Mae mynediad gwastad o'r stryd i'r adeilad ac yna set fechan o risiau neu lifft mynediad i'r awditoriwm (mynediad grisiau yn unig ar gyfer y balconi).

The Warren Room

What3Words: **reframe.cupcake.crucially**

The Warren Room is a 60 seat venue in a ground floor meeting room. Walking away from the Clock Tower down Maengwyn Street, walk past Huw Lewis tyres (opposite Hennighan's Top Shop) then round to the right onto Forge Road.

The Warren Room is in the building opposite the CAMAD portakabins on the way to the health centre. There is level access from the road via a slight slope up to the buildings main entrance.

Mae Ystafell Warren yn lleoliad 60 sedd mewn ystafell gyfarfod ar y llawr gwaelod. Gan gerdded o Dŵr y Cloc lawr Stryd Maengwyn, cerddwch heibio Huw Lewis Tyres (gyferbyn â Hennighan's Top Shop) ac yna i'r dde ymlaen i Heol Forge.

Mae Ystafell Warren yn yr adeilad gyferbyn â portacabins CAMAD ar y ffordd i'r ganolfan iechyd. Mae mynediad gwastad o'r ffordd ar hyd llethr bychan i fyny at brif fynedfa'r adeilad.

Machynlleth Rugby Club

What3Words:
neckline.monk.wicked

The Rugby Club is an 80 seater clubhouse. The main entrance faces the main pay and display car park in the centre of town and is the level access route in.

There is also a cut through from Woodland pathway between Y Plas and the Owain Glyndŵr Centre through the trees!

Mae'r Clwb Rygbi yn glwb 80 sedd. Mae'r brif fynedfa yn wynebu'r prif faes parcio talu ac arddangos yng nghanol y dref a dyma'r llwybr mynediad gwastad i mewn.

Mae yna hefyd doriad trwodd o lwybr Coetir rhwng Y Plas a Chanolfan Owain Glyndŵr drwy'r coed!

Machynlleth Bowling Club

What3Words:
balconies.inflation.truth

Situated to the rear of the Co-Op, head down Heol Maengwyn from the Clock Tower, past the Owain Glyndŵr Centre on your left, and then access the Bowling Club through the Co-Op's car park.

This 80 seater is the function room to the rear of the club. There is level access via a small concrete ramp to the main bar entrance.

Wedi'i leoli y tu ôl i'r Co-Op, ewch i lawr Heol Maengwyn o dŵr y cloc, ewch heibio i Ganolfan Owain Glyndŵr ar y chwith, ac yna ewch i'r Clwb Bowlio drwy faes parcio'r Co-Op.

Yr ystafell ddigwyddiadau y tu ôl i'r clwb gyda 80 sedd. Mae mynediad gwastad trwy ramp concrit bach i brif fynedfa'r bar.

GWESTY WYNNSTAY

HEOL MAENGWYN

croeso@wynnstay.wales 01654702941

Croeso Cynnes / A Warm Welcome
Bwyd Da / Good Food
Cwrw Cymreig / Welsh Real Ale

Little Wander Podcasts

AUDIO

Subscribe now via Apple, Spotify or wherever you get your podcasts

Downloadable transcripts available from: **littlewander.co.uk/little-wander-podcasts**

Little Wander

Campsites

Not a performance venue but home to hundreds of festival goers over the weekend!

The usual main camping field (behind the Co-Op Car Park) is having a year off to recover having been reseeded last year. Thankfully the field over the lane (where Live-in Vehicles, caravans, campervans and motorhomes were in 2024) has loads of room to accommodate everyone safely and with plenty of room to spare.

This includes people with tents, glamping bookings, Live-in Vehicles or any other campsite bookings that include a vehicle.

As a result, ALL TRAFFIC will access the campsite via Llynlloed Lane – a right turn off Maengwyn Street just before the Co-Op as you head away from the Clock Tower.

There will be signage up during the Festival but here is some more info to familiarise yourself with things in advance...

Campsite entrance (all vehicles)

What3Words : **wolves.shutting.hiring**

Pedestrian / non vehicular traffic

There is a separate pedestrian access point to the campsite from the Owain Glyndŵr pathway to avoid using the main gate on Llynloed Lane.

For full details on the festival campsite, please see page 28.

Gwersylloedd

Ddim yn lleoliad perfformio ond yn gartref i gannoedd o fynychwyr yr ŵyl dros y penwythnos!

Mae'r prif faes gwersylla arferol (y tu ôl i faes parcio'r Co-Op) yn cael seibiant am flwyddyn i wella ar ôl cael ei ail-hadu y llynedd. Diolch byth, mae gan y cae dros y lôn (lle'r oedd cerbydau llety, carafanau, faniau a chartrefi modur yn 2024) lwyth o le i bawb aros yn ddiogel a digon o le i sbario.

Mae hyn yn cynnwys pobl â phebyll, archebion glampio, cerbydau llety neu unrhyw archebion gwersylla eraill sy'n cynnwys cerbyd.

O ganlyniad, bydd POB TRAFFIG yn mynd i'r maes gwersylla drwy Lôn Llynlloed – troad i'r dde oddi ar Stryd Maengwyn ychydig cyn y Co-Op wrth i chi fynd oddi wrth y tŵr cloc.

Bydd arwyddion yn ystod yr ŵyl, ond dyma ragor o wybodaeth i ymgyfarwyddo â phethau ymlaen llaw ...

Mynedfa'r gwersyll (pob cerbyd)

What3Words: **wolves.shutting.hiring**

Cerddwyr / dim traffig cerbydol

Mae yna bwynt mynediad ar wahân i gerddwyr i'r maes gwersylla o lwybr Owain Glyndŵr er mwyn osgoi defnyddio'r brif giât ar Lôn Llynloed.

I gael manylion llawn am wersyll yr ŵyl, gweler tudalennau 30.

CAPSIWN COMPOST

Anfonwch eich capsiwn atom ar Insta neu Facebook @criwcompostio

CYLCHGRAWN Rhad ac Am Ddim ar gyfer pob pennawd a bostiwyd!

//

COMPOST CAPTION

Post the image with your caption to Insta or FB @criwcompostio

Free ZINE for every caption posted!

criw compostio

Heb fawn, lleol, wedi'i wneud â llaw, compost di-elw o wastraff bwyd Gŵyl Gomedi Mach.

//

Peat-free, local, handmade, non-profit compost from Mach Comedy Festival food waste.

Festival Bars / Bariau'r Ŵyl

